

TYSTYSGRIF SGILIAU IAITH

LLAWLYFR
MYFYRWYR

www.colegcymraeg.ac.uk/tsi



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

CYMRAG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BETH YW'R DYSTYSGRIF?

Mae myfyrwyr sydd â sgiliau dwyieithog yn fwy tebygol o gael swydd dda wrth raddio. Bydd ennill y Dystysgrif yn gymorth i chi wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru, mae'r Dystysgrif yn cynnig ffordd o ennill cymhwyster i gydnabod eich sgiliau yn y Gymraeg. Mae'n dystiolaeth o'ch gallu i gyfathrebu'n gywir, yn hyderus ac yn broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r asesiadau wedi eu cynllunio'n arbennig er mwyn rhoi prawf ar y sgiliau iaith fydd eu hangen arnoch wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau proffesiynol. Achredir y Dystysgrif gan CBAC.



PWY ALL GOFRESTRU?

Mae'n rhaid bod yn aelod o'r Coleg Cymraeg ac yn fyfyrwr neu'n aelod staff mewn prifysgol yng Nghymru er mwyn ymgeisio am y Dystysgrif. I fyfyrwyr sy'n derbyn ysgoloriaeth am flwyddyn neu fwy gan y Coleg, mae ymgeisio am y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn orfodol, ac mae hynny wedi ei nodi yn nhelerau ac amodau'r ysgoloriaeth.


SUT MAE COFRESTRU?

Gallwch ymaelodi â'r Coleg ar wefan y Coleg.

www.colegcymraeg.ac.uk/ymaelodi

I gofrestru ar gyfer y Dystysgrif, rhaid llenwi ffurflen gofrestru syml ar wefan y Coleg. Yna, byddwch yn derbyn neges yn dweud eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus.

Dim ond ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd y gallwch chi gofrestru ar gyfer y Dystysgrif Sgiliau Iaith. Fel arfer bydd y gofrestr yn cau erbyn diwedd Hydref. Ar ôl y cyfnod cofrestru, bydd ymgeiswyr yn derbyn manylion y sesiynau dysgu yn eu sefydliad oddi wrth tiwtor sgiliau iaith y brifysgol.



GRADDAU'R DYSTYSGRIF

Mae dwy ran i'r Dystysgrif, sef y Cyflwyniad Llafar a'r Arholiad Ysgrifenedig.

Mae pedwar canlyniad posibl ar gyfer y Dystysgrif:

- ▶ Rhagoriaeth
- ▶ Clod
- ▶ Llwyddo
- ▶ Methu.

Fel arfer, y trothwy llwyddo fydd 50% i bob cydran, sef y cyflwyniad llafar a'r arholiad ysgrifenedig. Gall yr union drothwyon ar gyfer y gwahanol raddau newid wrth i'r asesiadau gael eu dyfarnu.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn marc allan o 100 ar gyfer y ddwy gydran. Rhaid llwyddo yn y ddwy gydran i dderbyn tystysgrif.



SESIYNAU DYSGU

Bydd cyfle i chi fynychu cyfres o sesiynau yn eich prifysgol i'ch paratoi ar gyfer y Cyflwyniad Llafar a'r Arholiad Ysgrifenedig. Bydd modd ichi hefyd baratoi tasgau ysgrifenedig er mwyn cael adborth ar eich gwaith gan eich tiwtor.

Nid yw'r sesiynau'n orfodol, ond mae tystiolaeth o'r gorffennol yn awgrymu'n gryf bod mynychu'r sesiynau'n gymorth mawr i ymgeiswyr y Dystysgrif wrth iddynt baratoi ar gyfer yr asesiadau. Bydd y sesiynau'n edrych ar bob elfen o'r arholiad gan gynnig arweiniad ar sut i lwyddo yn yr elfennau hynny, a chewch gyngor gan diwtor profiadol er mwyn datblygu eich sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg.

BLE A PHRYD MAE'R SESIYNAU

Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn y gwahanol brifysgolion yn ystod y tymor dysgu. Mae gan bob prifysgol diwtor iaith penodol ar gyfer y Dystysgrif. Ar ôl i chi gofrestru, bydd eich tiwtor yn cysylltu â chi ar e-bost gyda rhagor o wybodaeth ac er mwyn cadarnhau trefniadau.



Y SESIYNAU DYSGU

CYNNWYS BRAS Y SESIYNAU IAITH

SESIWN GYCHWYNNOL

Sesiwn i bawb sydd wedi cofrestru i wneud y Dystysgrif i esbonio trefniadau'r asemiadau, a dangos y deunyddiau dysgu cefnogol sydd ar gael ar-lein.

GWELLA'CH CYMRAEG

Sesiwn gyffredinol ar ddatblygu sgiliau iaith, gan ymdrin â gwallau cyffredin.

YSGRIFENNU RHYDD

Sesiwn ar bwysigrwydd cywirdeb iaith wrth ysgrifennu'n rhydd. Rhoddir sylw penodol i'r math o wallau nad yw Cysill yn eu codi, megis priod-ddulliau Saesneg yn Gymraeg ac ati.

GOLYGU TESTUN

Cyflwyniad ar sut i ddefnyddio Cysill/Cysgeir yn llwyddiannus (ac offer cywiro Microsoft Word os yw ar gael).

CYFLWYNIADAU LLAFAR GRAENUS

Sesiwn yn ymdrin â sgiliau cyflwyno da a phwysigrwydd cywirdeb a chywair priodol. Bydd hefyd modd i chi drafod eich cyflwyniad mewn sesiwn unigol gyda'r tiwtor pe baech yn dymuno.

SGILIAU TRAWSIEITHU

Sesiwn ar drawsieithu, gyda phwyslais ar gywirdeb, defnyddio Cysill i gywiro, brawddegau, a chyflwyno'n eglur.

SESIWN ADOLYGU

Sesiwn i baratoi at yr arholiad.

Gall union deitl a chynnwys y sesiynau amrywio yn ôl y galw.



MANYLION CYSWLLT

Am fanylion cyswllt tiwtor iaith eich prifysgol/sefydliad, ewch i wefan y Coleg:

www.colegcymraeg.ac.uk/tsi

YR ASESIADAU

1. Y CYFLWYNIAD LLAFAR

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gwblhau eu cyflwyniadau llafar rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan yr arholwr. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.



Canllawiau

- ▶ Bydd disgwyl ichi baratoi un darn o ddeunydd atodol (e.e hyd at 8 sleid PowerPoint neu un ochr o daflen A4).
- ▶ Dylech roi eich enw llawn a'ch rhif aelodaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar ben pob sleid neu ar ochr y daflen
- ▶ Cadwch eich cyflwyniad PowerPoint/taflen ar gof bach gan roi eich enw a'ch rhif aelodaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y ffeil i'w throsglwyddo i'r cyfrifiadur yn yr ystafell asesu.
- ▶ Ar ddechrau'r cyflwyniad, dylech ddweud eich enw, eich rhif aelodaeth a'ch dyddiad geni.
- ▶ Cofiwch ymarfer eich cyflwyniad yn drwyadl er mwyn sicrhau eich bod yn cadw at y gofynion amser.
- ▶ Ni ddylech gynnwys unrhyw ddeunydd Saesneg o gwbl yn eich sleidiau.
- ▶ Bydd angen i chi ddod â'ch cerdyn adnabod prifysgol gyda chi i'r asesiad

Meini Prawf Y Cyflwyniad Llafar

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried er mwyn dyfarnu marc ar gyfer yr elfen hon:

- ▶ Dull cyflwyno
- ▶ Ystod cystrawennau a geirfa
- ▶ Cynnwys a threfn y cyflwyniad
- ▶ Ymateb i gwestiynau
- ▶ Cywirdeb iaith.

YR ASESIADAU

2. YR ARHOLIAD YSGRIFENEDIG

Bydd arholiad ysgrifenedig y Dystysgrif yn cael ei gynnal yn eich Prifysgol yn ystod mis Mai. Bydd yr union ddyddiad yn cael ei nodi ar wefan y Coleg.

Bydd tair tasg i'w cwblhau yn yr arholiad ysgrifenedig. Hyd yr arholiad fydd awr a hanner. Ceir enghreifftiau o hen bapurau arholiad ar wefan y Coleg. Gwerth yr arholiad yw 50% o'r marc terfynol.

TASG 1: Cywiro (20% o farciau'r papur)

Bydd darn tua 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys tua 22 o wallau gramadegol. Bydd disgwyl i fyfyrwyr gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn print trwm.

- ▶ Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon.
- ▶ Ni roddir unrhyw farciau os na fydd y gwallau wedi eu cywiro.
- ▶ Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro.
- ▶ Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn.
- ▶ Bydd Cysill yn canfod rhai o'r gwallau yn unig.
- ▶ Gofalus – bydd Cysill yn camgywiro rhai pethau!

Meini Prawf Tasg 1

Bydd Cysill yn adnabod 4 gwall, a rhoddir ½ marc yr un am gywiro'r gwallau hyn. Rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r 18 gwall ychwanegol (cyfanswm posibl, 20 marc).

TASG 2: Trawsieithu (40% o farciau'r papur)

Bydd angen addasu testun ysgrifenedig Saesneg i'r Gymraeg at ddiben penodol. Mae trawsieithu'n wahanol iawn i gyfieithu oherwydd bod angen crynhoi'r wybodaeth yn y darn yn ogystal â throsi'r wybodaeth i iaith arall.

- ▶ Bydd angen adnabod a chynnwys prif bwyntiau allweddol y darn.
- ▶ Dylai'r trawsieithiad fod tua thraean/chwarter hyd y gwreiddiol.
- ▶ Rhaid cynnwys prif neges y darn a'r isbwyntiau pwysicaf.

Meini Prawf Tasg 2

Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau canlynol wrth farcio'r dasg:

- cywirdeb iaith
- ystod cystrawen a geirfa
- addasrwydd y testun
- cynnwys y pwyntiau allweddol.

TASG 3: Ysgrifennu Rhydd (40% o farciau'r papur)

Bydd gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu testun mewn ymateb i sbardun penodol (tua 300 o eiriau). Mae'n bosibl y bydd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ystyried eu profiadau ym myd addysg/gwaith.

- ▶ Nid ysgrifennu stori neu ddarn creadigol yw'r dasg hon.
- ▶ Dylid ymdrin â phob agwedd ar y cwestiwn.
- ▶ Bydd cywirdeb a hyd y darn yn cael eu hystyried wrth farcio.

Meini Prawf Tasg 3

Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau canlynol wrth farcio'r dasg:

- cywirdeb iaith
- ystod cystrawen a geirfa
- cynnwys a threfn
- ateb gofynion y dasg.

CYMEDROLI A CHANLYNIADAU

Bydd CBAC yn sicrhau bod arholwr allanol yn bresennol ymhob cyflwyniad llafar, ynghyd â'r Tiwtor Iaith, a bydd pob cyflwyniad yn cael ei ffilmio at ddibenion cymedroli. Bydd y Prif Arholwr yn cymedroli sampl o'r holl gyflwyniadau.

Bydd y papurau arholiad yn cael eu marcio'n ddiennw gan arholwyr cymwys wedi eu penodi gan CBAC.

Bydd ymgeiswyr yn derbyn eu canlyniadau yn cynnwys eu marciau a'r dyfarniad drwy e-bost gan y Coleg yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf. Bydd pawb a fydd yn llwyddo yn derbyn tystysgrif erbyn mis Medi.

ADNODDAU AR-LEIN

Mae llawer o adnoddau dysgu defnyddiol ar wefan y Coleg. Yn ogystal â thafleuni gwaith ac ymarferion gramadeg rhyngweithiol, mae cyfres o fideos gan diwtoriaid iaith sy'n esbonio rhai o'r materion gramadegol sy'n gallu peri anhawster i siaradwyr Cymraeg.

www.colegcymraeg.ac.uk/sgiliauiaith

neu sganiwch y cod QR isod



ADNODDAU

iOS:

dangoswch y cod i gamera'r ffôn

Android:

dangoswch y cod i'r camera + gwasgu'r botwm cartref



Nodiadau...

This image shows a single sheet of white paper with horizontal ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.

DY DDYFODOL DI



www.colegcymraeg.ac.uk/tsi



www.twitter.com/colegcymraeg



www.facebook.com/colegcymraeg